12FED O FEHEFIN

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

Rydym yn falch iawn o gadarnhau y bydd Ysgol Treganna unwaith eto yn cymryd rhan yng ngorymdaith Pride yng Nghaerdydd eleni, ochr yn ochr ag ysgolion eraill y ddinas.
Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle arbennig i ddathlu cynhwysiant, parch, amrywiaeth ac i sefyll gyda'n gilydd fel cymuned sy'n gwerthfawrogi pob unigolyn.
Mae croeso cynnes iawn i deuluoedd, staff a chymuned ehangach yr ysgol ymuno â ni.
Rydym yn gweld gwerth mawr yn ymgynnull fel un gymuned yn dangos ein cefnogaeth, ein balchder a'n hymrwymiad i greu amgylchedd diogel a chroesawgar i bawb.
Bydd yr orymdaith yn cael ei chynnal ar Ddydd Sadwrn,13 Mehefin.Byddwn yn cyfarfod erbyn 10yb, y tu ôl i'r bwa balŵns ar flaen yr orymdaith.
Fe ddewch o hyd i ni o dan faner "Pasbort i'r Ddinas", lle bydd aelodau o'n staff a'n disgyblion yn barod i'ch croesawu.
Rydym yn annog pawb i ddod mewn lliwiau llachar, neu unrhyw beth sy'n adlewyrchu ysbryd y diwrnod.
Nid oes angen unrhyw offer na thocynnau,dim ond eich presenoldeb, eich gwên a'ch brwdfrydedd.
Edrychwn ymlaen yn fawr at ddathlu gyda'n gilydd ac at weld cynifer â phosibl o'n cymuned wych yn ymuno â ni.

## Calendr

**Gorymdaith Pride**
**Mehefin 13**

**Tafwyl**
**Mehefin 20**

**Tregwyl**
**Mehefin 26**

**Teganau**
Hoffwn eich atgoffa'n garedig nad ydym yn caniatáu i blant ddod â theganau o adref i'r ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch, osgoi colledion neu ddifrod, a chynnal amgylchedd dysgu tawel a ffocws.
Diolch yn fawr.

# Tafwyl

Bydd Tafwyl yn cael ei gynnal yng Nghastell Caerdydd ar Ddydd Sadwrn nesaf, 20 Mehefin.

Bydd disgyblion Blwyddyn 2 yn perfformio ar Lwyfan yr Ysgolion am 4.15yp, ac rydym yn edrych ymlaen at eu cefnogi.

Yn ogystal, bydd Mr Collins a'i fand, Dadleoli, yn perfformio ar Lwyfan y Ddinas am 7.00yh, felly dewch draw i fwynhau'r gerddoriaeth a chefnogi ein staff a'n disgyblion.

Edrychwn ymlaen at weld pawb yno i ddathlu!

# Y Nyth

**Deall Prosesu Synhwyraidd**

Diolch o galon i'r rhieni a ddaeth i'r gweithdy bore 'ma.

Rydym yn gwerthfawrogi'ch cefnogaeth yn fawr.

Diolch hefyd i Mrs Elen Derrick (Tîm Cefnogi Awtistiaeth) am gynnal sesiwn llawn gwybodaeth ac am egluro sut y gall rieni gefnogi yn y cartref.

## Mrs Liz Esau

Heddiw, rydym wedi dweud ffarwel â Mrs Liz Esau, sy'n ymddeol ar ôl 33 mlynedd o wasanaeth fel aelod o staff dysgu yn Ysgol Treganna. Mae ei chyfraniad wedi bod yn un hynod werthfawr ac mae Mrs Esau wedi bod yn rhan annatod o'n cymuned ers degawdau.

Hoffem ddiolch o galon iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd, ei safonau uchel, ei disgwyliadau clir, a'i chydweithio proffesiynol a chynnes. Mae Mrs Esau wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad cannoedd o ddisgyblion, gan gynnig cefnogaeth, gofal a chysondeb a fydd yn cael eu cofio'n hir.

Wrth iddi gamu i mewn i'r cyfnod newydd hwn o'i bywyd, dymunwn bob hapusrwydd iddi, iechyd da, a llawer o fwynhad yn ei hymddeoliad.

## Becca Pennar

Heddiw, rydym yn dymuno pob lwc i Becca Pennar, sy'n gorffen yn Ysgol Treganna am gyfnod wrth iddi ddechrau ar ei chyfnod mamolaeth. Mae hwn yn gyfnod hynod gyffrous, a hoffem ddymuno pob hapusrwydd iddi wrth iddi baratoi ar gyfer y bennod arbennig hon yn ei bywyd.

Bydd Branwen Parry yn dysgu Dosbarth Gwydion tan ddiwedd y flwyddyn, a hoffwn ei chroesawu'n gynnes nol i'r ysgol.

Dymunwn y gorau i Becca yn y misoedd sydd i ddod, ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu'n ôl yn y dyfodol.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

Ga i fynd i'r parc?

Cei/Na chei

**Her**

Gawn ni fynd i'r parc?

Cewch/Na chewch

**Testun trafod yr wythnos**

Pwy sydd wedi bod yn garedig gyda chi heddiw?

**Cân yr wythnos**

Haf i ti - Dadleoli

**Idiom yr wythnos**

Siarad fel melin bupur